45 - 60 mun

# Dyddiadur Dyfan y Dyfrgi

Pecyn Athro

Pwnc: Dyfrgwn

CA: 1/2

## Canllaw gweithgaredd:

Canllaw gweithgaredd:

- Preniau mesur
- Papur graff
- Copïau wedi'u hargraffu o 'Ddyddiadur Dyfan y Dyfrgi'

**I wneud y gweithgaredd:**

1. Rhoddir copïau o ddyddiadur y dyfrgi i'r disgyblion.

2. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth sydd yn y dyddiadur i greu graff bar sy'n dangos faint o bob ysglyfaeth y mae'r dyfrgi yn ei fwyta. Gellir gwneud hyn naill ai bob dydd neu am yr wythnos gyfan.

3. Gellir ymestyn y gweithgaredd drwy greu graff arall yn seiliedig ar amcangyfrifon o ba mor bell y mae'r dyfrgi wedi teithio i gael y bwyd bob dydd. Mae gan y map raddfa ac mae'r dyddiadur yn manylu lle mae'r dyfrgi wedi bod, felly gellir hefyd mesur pellter y llwybrau a'u rhoi yn y graff.

4. Fel dosbarth, gellir trafod y canlyniadau a chymharu'r pellteroedd i leoedd lleol sydd â phellter cyfatebol fel bod y disgyblion yn cael syniad o ba mor bell mae'r dyfrgwn yn teithio i gael bwyd.

# Dyddiadur Dyfan y dyfrgi

**Dydd Llun:**
Roedd hi'n ddiwrnod braf heddiw felly fe aethom am dro bach i'r arfordir i fwyta crancod.Roedd yn teimlo fel ei fod yn cymryd oes i nofio'r holl ffordd i'r aber ac yna o amgylch i'r Bae Creigiog. Ond roedd llwyth o fwyd, bwyteais wyth cranc! Ar y ffordd yn ôl, i swper mi gefais eog a dau lyffant. Amser gwely rŵan.

**Dydd Mawrth:**
Roedd hi'n bwrw hen wragedd a ffyn heddiw a doeddwn i ddim yn teimlo fel mynd ymhell, felly cefais dri llyffant i frecwast ac yna es i nofio ychydig yn y llyn Mawr Glas. Roedd ambell frithyll felly cefais ddau i ginio ac yna es i adref i gael dau lyffant i swper.

**Dydd Mercher:**
Cefais ddiwrnod prysur iawn heddiw, gyda digon o nofio. Roedd Mam eisiau i mi helpu i nôl bwyd i bawb felly nofiom i fyny i'r rhaeadr i ddal eog, a bwyteais un mawr i frecwast. Yna, aethom i lawr i Ffrwd Goediog i chwilio am lyffantod. Roeddwn i mor llwglyd fel y bwyteais dri fel rhywbeth i aros pryd. Wedyn, mi wnaethom barhau i lawr at y Traeth Tywodlyd i chwilio am grancod. Daethom o hyd i lwyth felly cefais bedwar i swper. Roedd yn teimlo fel ei fod yn cymryd oes i nofio'n ôl i'r wâl heno.

**Dydd Iau:**
Roeddwn i'n flinedig iawn heddiw felly doeddwn i ddim eisiau gwneud llawer. Aethom i nofio'n gynnar o gwmpas y llyn Mawr Glas.Cawsom ddau frithyll i frecwast. Yna, aethom i chwarae yn ffrydiau'r mynydd. Cefais fy hoff fwyd i ginio, pedwar cimwch afon! Roedd yn flasus iawn. Cefais gyntun ac yna mi es i gyda Mam i'r rhaeadr lle cawsom eog i swper.

**Dydd Gwener:**
Roedd hi'n ddiwrnod stormus heddiw felly penderfynodd Mam y dylem fynd i'r môr i chwilio am grancod. Aethom i lawr at y brif afon a daethom ar draws llawer o lysywod. Cefais dair fach i frecwast. Aethom reit at ymyl y Traeth Tywodlyd heddiw cyn belled ag y medrwch fynd o'r aber – roedd yn gyffrous. Cefais chwe chranc i ginio a dau arall yn y Bae Creigiog. Cyn gynted ag y gwnaethom gyrraedd adref, rhoddodd Mam dri llyffant i ni i swper ac aethom i'r gwely.

Lluniais fap o ardal fy nghartref fel y gallaf ei chofio am byth...

